# CYNGOR GWYNEDD
# GWASANAETH RHEOLI LLYGREDD A THRWYDDEDU

**DEDDF SEFYDLIADAU LLETYA ANIFEILIAID 1963**

# AMODAU TRWYDDED A CANLLAWIAU AR GYFER LLETYA CWN GARTREF

**CYNGOR GWYNEDD**
**GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD**

# DEDDF SEFYDLIADAU LLETY ANIFEILIAID 1963

## AMODAU TRWYDDEDU AR GYFER LLETYA CŴN YN Y CARTREF

**CYNNWYS**


**1. AMODAU CYFFREDINOL**
1.1 Arddangos Trwydded
1.2 Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod

**2. LLETY AC AMGYLCHEDD**
2.1 Amgylchedd Domestig
2.2 Maint Ystafell
2.3 Blancedi
2.4 Tymheredd a Gwresogi
2.5 Golau
2.6 Awyru
2.7 Glanweithdra
2.8 Difa Pla
2.9 Gwaredu Gwastraff

**3. DIET A MAETH**
3.1 Bwyd a Diod
3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

**4. YMDDYGIAD NORMAL**
4.1 Cyfleusterau Hamdden
4.2 Goruchwyliaeth
4.3 Uchafswm y Cŵn a gaiff eu Lletya

**5. IECHYD A LLES**
5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
5.2 Rheoli Afiechydon a Brechiadau
5.3 Cyfleusterau Arwahanu
5.4 Gofynion Amrywiol
5.5 Cludo Cŵn
5.6 Diogelu rhag Tân
5.7 Diogelwch Offer Trydanol

**6. CADW COFNODION**
6.1 Cofrestru

**7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006**
7.1 Meddyginiaeth Arferol
7.2 Cymdeithasu
7.3 Tagiau Adnabod Cŵn

**ARGYMHELLIAD**
Polisi Yswiriant

## 1. AMODAU CYFFREDINOL

### 1.1. Arddangos Trwydded

**a.** Rhaid arddangos copi o’r drwydded a’i hamodau cysylltiedig i aelodau’r cyhoedd mewn lleoliad amlwg i’r cyhoedd gael ei gweld, yn yr eiddo neu o gwmpas, neu raid iddynt fod ar gael i bob perchennog sy'n dod â'i gi/cŵn i'r llety.

### 1.2 Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod

**a.** Oni nodir yn wahanol, mae’r amodau hyn yn berthnasol i bob adeilad ac ardal y mae gan gŵn fynediad iddynt ac/neu a ddefnyddir yn gysylltiedig â lletya cŵn.
**b.** Rhaid i ddeilydd y drwydded wneud asesiad o’r risgiau lletya yn cynnwys y risg i blant, neu risgiau a achosir gan blant, sy'n debygol o fod yn yr eiddo.
**c.** Ni fydd unrhyw gartref gyda phlant dan 5 mlwydd oed yn cael ei drwyddedu.
**d** Ni ddylid derbyn unrhyw gi sydd wedi’i gofrestru dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 i’r llety.
**e.** Ni ddylid lletya cŵn bach dan 6 mis oes gyda chŵn eraill oni bai eu bod yn dod o’r un cartref.

## 2. LLETY AC AMGYLCHEDD

### 2.1 Amgylchedd Domestig

**a.** Rhaid i’r cŵn fyw yn y cartref fel anifeiliaid anwes y teulu. Ni ddylid adeiladu adeiladau, cewyll na rhedfeydd allanol.
**b.** Bydd gan yr eiddo ei fynediad ei hun ac ni ddylai gael mynediad a rennir e.e. grisiau cymydol.
**c.** Cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol rhaid gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beryglon ffisegol na chemegol all achosi niwed i’r cŵn ym mhob ardal/ystafell yn y cartref ble y mae gan gŵn fynediad iddynt.
**d.** Rhaid cael mynediad uniongyrchol i ardal addas tu allan. Dim ond perchennog y tŷ ddylai ddefnyddio’r ardal/ardd (ni ddylid ei rhannu gyda phreswylwyr eraill).

### 2.2 Maint Ystafell

**a.** Rhaid sicrhau bod digon o le i gadw’r cŵn ar wahân os oes angen.
**b.** Rhaid i’r gosodiad alluogi i bob ci allu dewis p'un ai i weld ci arall ai peidio.

## 2.3 Blancedi

**a.** Rhaid annog cleientiaid i ddarparu blancedi i bob ci eu hunain.
**b.** Rhaid cadw pob ardal gysgu cŵn yn lân a sych.

## 2.4 Tymheredd a Gwresogi

**a.** Rhaid i gyfleusterau gwresogi ac oeri fod ar gael yn yr amgylchedd domestig a'u defnyddio yn unol â gofynion pob ci unigol.
**b.** Rhaid i ddarn o'r ardal gysgu sicrhau bod y ci yn gallu mwynhau isafswm tymheredd o 10°C ac uchafswm tymheredd o 26°C.
**c.** Yn yr ardal arwahanu, rhaid sicrhau bod yna fodd cynnal y tymheredd ar lefel sy'n addas i gyflwr y ci ac yn ddibynnol ar gyngor milfeddygol. Fodd bynnag, ni ddylid gadael i'r tymheredd yn yr ardal arwahanu godi uwchlaw 26°C neu ddisgyn o dan 13°C.
**d.** Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sicrhau bod ffynonellau gwres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheolaethol ar gyfer y cŵn a'r bobl sy'n gweithio yno.

## 2.5 Golau

**a.** Rhaid darparu golau i ardaloedd hamdden a chysgu fel bod pob rhan yn hawdd i'w gweld. Dylai hwn fod yn olau naturiol ble bo'n ymarferol. Mae angen diffodd golau yn ystod y nos er mwyn caniatáu patrymau cysgu cywir.

## 2.6 Awyru

**a.** Rhaid darparu system awyru i bob ardal fewnol heb greu gormod o ddrafftiau yn yr ardal gysgu. Rhaid iddo hefyd allu rheoli newidiadau mewn tymheredd.

## 2.7 Glanweithdra

**a.** Rhaid cadw pob ardal y mae gan gŵn fynediad iddi, yn cynnwys y gegin ac ati, yn lân ac yn rhydd o faw a llwch a dylid eu cadw mewn cyflwr sy'n addas i allu rheoli afiechydon a chreu awyrgylch gyfforddus i'r cŵn.
**b.** Rhaid clirio'r holl garthion a deunyddiau wedi'u baeddu o'r ardaloedd a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y diwrnod, ac yn amlach os oes angen.

## 2.8 Difa Pla

a. Rhaid cymryd camau i leihau'r risgiau a achosir gan gnofilod, pryfed a phla eraill yn y cartref. Rhaid ymdrin â phlâu o'r fath heb oedi drwy ddefnyddio cynnyrch milfeddygol addas er mwyn cael gwared ar unrhyw bla.

### 2.9 Gwaredu Gwastraff

- **a.** Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwaredu ar bob gwastraff yn briodol.
- **b.** Rhaid cymryd gofal penodol i ddidoli gwastraff clinigol a gesglir o ganlyniad i driniaeth ac ymdrin â chŵn gydag afiechydon heintus.
- **c.** Rhaid cytuno ar gyfleusterau gwaredu gwastraff anifeiliaid gyda'r Awdurdod Trwyddedu.

## 3. DIET A MAETH

### 3.1 Bwyd a Diod

- **a.** Rhaid i bob ci gael cyflenwad digonol o fwyd addas yn unol â chyfarwyddyd y cleient.
- **b.** Rhaid sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael bob amser a bod y powlenni yfed yn cael eu glanhau bob dydd. Rhaid newid y dŵr o leiaf unwaith y dydd.
- **c.** Rhaid i bob ci gael ei bowlen ei hun.
- **d.** Rhaid i bowlenni bwyta ac yfed fod yn hawdd i'w glanhau a'u diheintio er mwyn atal trawshalogi. Rhaid glanhau powlenni bwyd ar ôl pob pryd.

### 3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

- **a.** Rhaid darparu bocsys aerdyn er mwyn storio bwyd sych.
- **b.** Rhaid i fwyd heb ei goginio a thuniau bwyd ar eu hanner gael eu storio yn yr oergell mewn cynhwyswyr gorchuddiedig sydd ddim yn fetel nac yn gollwng.
- **c.** Dylid cadw cyflenwadau mawr o fwyd mewn cynhwyswyr na all fermin fynd atynt.

## 4. YMDDYGIAD NORMAL

### 4.1 Cyfleusterau Hamdden

- **a.** Rhaid mynd â cŵn am dro/gadael iddynt redeg yn unol â dymuniadau eu perchnogion.
- **b.** Dylai cŵn fod ar dennyn os ydynt yn mynd oddi ar yr eiddo oni bai bod eu perchennog wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig iddynt gael mynd am dro/rhedeg heb dennyn.
- **c.** Rhaid i'r ardal hamdden/gardd yr eiddo ac unrhyw ardal arall y mae gan gŵn fynediad iddi fod yn hollol ddiogel a saff.
- **d.** Rhaid cael ffensys digonol er dibenion diogelwch i atal cŵn rhag dianc a'u cadw'n ddiogel heb unrhyw wrthrychau neu allwthiadau siarp neu beryglus.
- **e.** Rhaid i'r giatiau fod yn ddiogel.

### 4.2 Goruchwyliaeth

**a.** Rhaid i berson addas a phriodol gyda’r profiad perthnasol fod ar gael bob amser i oruchwylio ac ymdrin ag argyfyngau pan gaiff cŵn eu lletya yn yr eiddo.
**b.** Rhaid ymweld â’r cŵn yn rheolaidd fel bo’r angen er mwyn eu hiechyd, diogelwch a lles.
**c.** Dim ond pobl dros 16 oed a ganiateir i fynd â’r cŵn am dro mewn llefydd cyhoeddus heb oruchwyliaeth.

### 4.3 Uchafswm y Cŵn a gaiff eu Lletya

**a.** Nodir uchafswm y cŵn a gaiff eu lletya ar unrhyw adeg ar y drwydded ac ni ddylid lletya mwy na hynny na mwy na 6 chi dan unrhyw amgylchiadau.
**b.** Pennir yr uchafswm o gŵn a gaiff eu lletya gan gyfleusterau’r eiddo.
**c.** Bydd nifer y cŵn yn cael ei leihau os na fydd modd cydymffurfio gyda gofynion eraill y drwydded.
**d.** Efallai y bydd cŵn a ddaw o’r un cartref yn cael eu lletya gyda’i gilydd ar yr un pryd cyn belled bod eu natur, eu cymdeithasgarwch a'u profiad o gael eu lletya yn y gorffennol yn cael eu hasesu i sicrhau bod y trefniant yn addas a'u bod wedi cael caniatadau amrywiol eu perchnogion.
**e.** Ni ddylid lletya cŵn gydag unrhyw gath oni bai eu bod yn byw gyda’i gilydd yn yr un cartref.
**f.** Os oes yna gi neu gath eisoes yn preswylio yn y cartref, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan berchnogion y ci sy’n cael ei letya ar ôl sesiwn ymgyfarwyddo.

## 5. IECHYD A LLES

### 5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg

**a.** Rhaid i bob sefydliad lletya gofrestru gyda phractis milfeddygon a sicrhau bod manylion llawn ar gael i’r Awdurdod Trwyddedu.
**b.** Rhaid cael gwybod pwy yw practis milfeddygon y cleientiaid eu hunain a chysylltu â hwy os oes angen.
**c.** Rhaid gofyn am gyngor gan filfeddyg os oes arwydd o afiechyd, anaf neu salwch. Rhaid dilyn unrhyw ganllawiau a roddir gan filfeddyg ar gyfer triniaeth i unrhyw gi sy’n sâl neu wedi’i anafu.
**d.** Rhaid hysbysu’r Awdurdod Trwyddedu o farwolaeth unrhyw anifail yn yr eiddo.
**e.** Rhaid i Ddeilydd y Drwydded wneud trefniadau i’r corff gael ei storio yn eiddo practis y milfeddyg tan mae’r perchnogion yn dychwelyd.

### 5.2 Rheoli Afiechydon a Brechiadau

**a.** Rhaid cymryd rhagofalon digonol er mwyn atal a rheoli afiechydon heintus a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, staff ac ymwelwyr.
**b.** Rhaid i berchnogion cŵn sy’n cael eu lletya ddod â chofnod o’r brechiadau a gymeradwywyd gan filfeddygon a gawsant yn erbyn clefyd y cŵn, *kennel cough*, hepatitis, *parvovirus*, leptosbirosis ac afiechydon perthnasol eraill.

**c.** Rhaid cymryd rhagofalon er mwyn atal chwain, trogod, parasitiaid perfeddol a pharasitiaid eraill rhag lledaenu ymhlith cŵn a gaiff eu lletya a chŵn sydd eisoes yn preswylio yn yr eiddo; rhaid i hyn gynnwys trin y llety yn rheolaidd. Rhaid cadw prawf o'r holl driniaethau rheolaidd ac argyfwng ar gyfer parasitiaid.

**d.** Ar ôl cyfnod o afiechyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, rhaid i'r eiddo gael cyfnod rhesymol o gwarantin cyn derbyn unrhyw anifeiliaid newydd i aros. Pennir y cyfnod hwn gan yr Awdurdod Trwyddedu fel y cytunir arno gyda'u milfeddyg awdurdodedig.

### 5.3 Cyfleusterau Arwahanu

**a.** Rhaid i gyfleusterau arwahanu fod ar gael a chydymffurfio â'r amodau trwyddedu eraill ond rhaid iddynt hefyd fod ar wahân yn ffisegol oddi wrth lety eraill ar gyfer cŵn.

**b.** Rhaid i gyfleusterau digonol fod ar gael i atal afiechydon heintus rhag lledaenu rhwng cŵn a gaiff eu cadw ar wahân a chŵn eraill.

**c.** Rhaid i fesurau bioddiogelwch effeithiol fod yn eu lle a'u bod yn cael eu deall.

**d.** Rhaid i Ddeilydd y Drwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar y diwrnod gwaith nesaf os oes ci yn dangos arwyddion o afiechyd heintus.

### 5.4 Gofynion Amrywiol

**a.** Rhaid i focs cymorth cyntaf digonol ar gyfer cŵn fod wrth law ac ar gael ar y safle.

**b.** Ni ddylid lletya cŵn a geist cyfain sy'n cynheica neu eist fydd yn cynheica yn ystod y cyfnod lletya gyda'i gilydd.

**c.** Os fydd ci yn dianc neu'n mynd ar goll o ofal deilydd trwyddedig i letya cŵn, rhaid iddynt hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted y bo'n ymarferol gwneud hynny a heb unrhyw oedi.

**d.** Rhaid darparu manylion llawn y dyddiad, yr amser, y lleoliad a'r amgylchiadau ynglŷn â'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog ac unrhyw gamau gweithredu adferol a gymerwyd gan ddeilydd y drwydded.

**e.** Rhaid i berthynas, ffrind neu gymydog o fewn pum munud o amser teithio o'r cartref gael set o allweddi sbâr a mynediad i'r eiddo rhag ofn y bydd argyfwng. Rhaid i'r manylion hyn fod ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.

### 5.5 Cludo Cŵn

**a.** Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sy'n cynnig gwasanaeth casglu a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â rheoliadau presennol sy'n ymwneud â Lles Anifeiliaid wrth gael eu Cludo.

### 5.6 Diogelu rhag Tân

**a.** Rhaid cael cynllun argyfwng tân a gwacáu yn ei le.

**b.** Rhaid cael dulliau digonol i allu hysbysu pawb os oes tân neu unrhyw argyfwng arall.

**c.** Rhaid cynnal a chadw offer diffodd tân a chanfodyddion yn briodol a'u gosod mewn mannau priodol. Mae angen gwasanaethu neu newid diffoddwyr tân fel bo'r angen.

**d.** Ni ddylid gosod offerynnau gwresogi mewn lleoliad neu fodd ble gallant beri risg tân neu risg i gŵn.

**e.** Dylid cymryd rhagofalon er mwyn atal unrhyw ddeunydd gronni allai beri risg tân.

**f.** Rhaid i breswylydd yr eiddo fod yn ymwybodol o leoliad y cŵn yn yr eiddo bob amser.

**g.** Rhaid i Ddeilydd y Drwydded gael trefniadau addas ar gyfer lletya cŵn dros dro os pennir nad yw'r eiddo trwyddedig yn addas i fyw ynddo.

### 5.7 Diogelwch Offer Trydanol

**a.** Rhaid i chi sicrhau bod yr holl systemau trydanol wedi'u hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol er mwyn atal peryglon yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989.

## 6. CADW COFNODION

### 6.1 Cofrestru

**a.** Rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn a gaiff eu lletya. Rhaid i'r wybodaeth a gedwir gynnwys yr hyn a ganlyn:

- dyddiad cyrraedd
- enw'r ci, ynghyd ag unrhyw farc adnabod arall megis rhif microsglodyn neu datŵ
- disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r ci
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r gofalwr
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person cyswllt yn ystod y cyfnod lletya
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci
- amcan a gwir ddyddiad gadael, gofynion iechyd, lles a maeth
- manylion am faint a gweinyddiad unrhyw feddyginiaeth ar bob achlysur y caiff ei gweini

**b.** Rhaid gwneud yn siŵr bod y cofnodion ar gael ac yn cael eu cadw am o leiaf 24 mis. Rhaid eu cadw mewn modd sy'n galluogi swyddog awdurdodedig gael mynediad hawdd at wybodaeth o'r fath.
**c.** Os yw cofnodion yn cael eu cadw ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi caled.
**d.** Yn ogystal, rhaid i'r gofrestr fod ar gael i aelodau staff y sefydliad bob amser.

## 7. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

### 7.1 Meddyginiaeth Arferol

**a.** Rhaid i berson cymwys ac addas weini meddyginiaeth i unrhyw gi a gaiff ei letya sydd angen meddyginiaeth neu driniaeth arferol/ddyddiol.
**b.** Rhaid logio a thrafod yn llawn faint o feddyginiaeth a pha mor aml y dylid ei gweini cyn arhosiad y cŵn.

### 7.2 Cymdeithasu

**a.** Rhaid i bob anifail gael y cyfle i ryngweithio a chael eu hysgogi'n ddyddiol.

### 7.3 Tagiau Adnabod Cŵn

**a.** Rhaid i gŵn wisgo coler a thag adnabod yn ystod cyfnod eu lletya. Rhaid i'r tag arddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr eiddo lletya.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

**Polisi Yswiriant**

Argymhellir yn gryf bod gan bob sefydliad lletya sicrwydd yswiriant cynhwysfawr ac addas.